

Y MAE rhywun wedi disgrifio profiad dysgwyr, wrth iddynt ddarganfod eu hetifeddiaeth, fel tasen nhw'n dod ar draws rhyw gyfandir newydd. Yn sicr y mae teithio'r cyfandir hwn yn siwrmai ryfeddol ac weithiau y mae brwdfrydedd ambell i ddysgwyr yn mynd dros ben llestri — yn yr ystyr orau posib.

I mi mae pori silffoedd siopau llyfrau Cymru am gyfrolau Cymraeg ail-law wedi troi'n addysg o'r radd flaenaf. Felly rydw i wedi darganfod hen lyfrau plant, cylchgronau a hwiangerddi na chefais yn fy mh Bentleyndod Cymraeg.

Yn ogystal yr wyf wedi cloddio am drysorau eraill megis geiriaduron, gwyddoniaduron, straeon, hanes teithiau, llyfrau gramadeg, llyfrau natur, nofelau, barddoniaeth ac yn y blaen — i gyd yn fy mamiaith ail-fabwysiedig.

Ond yn yr UDA y dechreuais gasglu llyfrau o'r fath — llyfrau na allwn i ddeall gair ohonynt. Roedd yn syndod ysgytwol i mi faint o lyfrau Cymraeg oedd ar gael yno.

Yn Wisconsin y cefais fy llywyth cyntaf. Fe ddwedodd hen ffarmwr wrthyf ei fod ar fin llosgi llong bocs o hen lyfrau. Mae'n debyg mai hen lyfrgell rhyw fewnfudwr o Gymro o'r ganrif ddiwethaf oeddynt. Roedd yno lyfrau pregethau, emynau, bywgraffiadau ac ambell i gasgliad o draethodau gan awduron megis S.R.

Fe gymerais y llyfrau oddi wrth yr hen foi gyda diolch mawr. Wedyn fe'u trosglwyddais hwy i gyd i ddau lyfrgarwr o Gymry y cyfarfûm â nhw yng Nghanada. Yn gyson ers hynny y mae llyfrau Cymraeg wedi dod ataf o gorneli annisgwyl o bob cwr o'r UDA.

\* \* \*

YM MINNESOTA cefais gasgliad oddi wrth fonheddwr mewn cartref i'r henoed nad oedd ddiddordeb gan ei berthnasau ynddynt. Fe gedwais ambell un — cyfrolau a gyhoeddwyd yn Efrog Newydd ac yn Pennsylvania oedd y rhan fwyaf.

Erbyn hyn y maent hwythau hefyd wedi symud at gasglwyr eraill sy'n arbenigo mewn llyfrau Cymraeg a gyhoeddir tu allan i Gymru.

Ar deithiau i'r Amerig, ers y cyfnod hwnnw, rydw i wedi gwneud pwynt o chwilio mewn cymaint o siopau hen lyfrau ag a fedrwn. Rydw i wedi ffeindio llyfrau Cymraeg mewn llawer o fannau anghysbell ond yn sicr mae ambell i dalaith yn fwy addawol nag ambell un arall.

Yng Nghansas a Missouri er enghraifft yr oedd nifer o drefi eithaf Cymreig eu cefndir. Mae eu llyfrau nhw'n siwr o fod wedi mynd i siopau y dinasoedd megis Kansas City, Jefferson City a St. Louis.

## DAVID GREENSLADE yn Casglu llyfrau yn America a Canada

UN O'M bargeinion mwyaf lwcus oedd *Hanes Cymru America* gan R.D. Thomas mewn siop yng Ngholumbus, Ohio. Dyna gyfrol a ystyrir yn berllan Gymry America/Canada heddiw. Dro arall fe ddeuthum ar draws *Hunangofiant Tomi*, arg.cyntaf mewn cyflwr gwych, ym Mhittsburgh.

Ond y llyfr Cymraeg cyntaf (ail-law) a brynais erioed oedd pan o'n i'n byw yn Atlanta, Georgia. Un diwrnod dyma alwad ffôn — yr oedd *Llyfryddiaeth y Cymry* ar gael mewn cyflwr ysblennydd ac am bris rhesymol. Roedd prynu hwn

yn sbardun i mi gofrestru ar gwrs WLPAN pan ddeuthum yn ôl i Gymru ddwy flynedd wedyn.

Mae ambell i ffynhonnell yn yr UDA yn delio mewn llyfrau Cymraeg trwy'r post. Roedd un, Buckabest Books yng Nghalifornia, yn un ardderchog ond y mae'r perchennog wedi ymddeol erbyn hyn. Yr unig un y gwn amdano heddiw ydy'r Cottage Bookstore yn Mississippi. Ymddengys rhestr y Cottage Bookstore yn achlysurol. Yr wyf wedi cael lwc gyda llyfrau fel Gray's *Buried City of Kenfig* neu Jackson's *The International Popular Tale*.

Ar ddechrau eleni dyma becyn bach yn fy nghyrraedd o Vermont. Y mae gan fy ngwraig gefnder yno sy'n cadw siop hen lyfrau enfawr. Mae yna amgueddfa Gymreig yn Poultney, Vermont, ardal yr hen gloddfeydd llechi. Cynnwys y pecyn oedd dau hen Feibl. Dim byd chwyldroadol, ond tystiolaeth bod cyfrolau Cymraeg yn dod allan o'r hen loffydd Americanaidd o hyd.

\* \* \*

YMA RYDW i wedi sôn am lyfrau Cymraeg eu hiaith neu Gymreig eu testun. Ynghylch llyfrau Saesneg gan awduron o Gymry, megis Richard Hughes, Augustus John, David Jones, Gwyn Thomas ac Emyr Humphreys mae'r chwilotwr yn fwy tebyg fyth o fod yn llywyddiannus.

## Cerddi cynnar y Cynan arall

gan

MAIR ELUNED PRITCHARD

SÔN AM y dathlu mawr fu yn y capel ym Mrynaerau, Arfon yr oeddem ni, y dathlu pan gyrhaeddodd Catrin Owen, Glan yr Afon, ei chant oed yn 1912. Un yn unig o'r cwmni oedd yn cofio'r achlysur ac yn medru adrodd yr hanes yn ddfyr wrthym.

'Roedd band Nantlle wedi ei wahodd i ganu,' meddai, 'ac mi gafwyd clamp o de parti. Fe ganwyd ac fe adroddwyd llawer o benillion i gyfarch yr hen wraig, penillion o waith amryw o wahanol awduron. Os dwi'n cofio'n iawn, 'roedd 'na benillion o waith Cynan ac Aled Ddu yn eu plith. Fe brintiwyd yr holl benillion mewn papur newydd yr wythnos ddilynol.'

Medrwn dderbyn bod Aled Ddu wedi cyfansoddi penillion cyfarch Catrin Owen. Gŵr lleol ydoedd ef, sef Robert Williams, Bryn Wylfa; casglwr trethi wrth ei alwedigaeth ac ysgrifennydd yr eglwys ym Mrynaerau. Ond euthum braidd yn amheus o gywirdeb cof yr hen ŵr pan gyfeiriodd at Cynan yn y cyswllt dan sylw.

Fodd bynnag, pan ddaeth y cysle toc a dal i chwilita ym mhapurau newyddion 1912, fe chwalwyd fy amheun. O dan bennawd bras: 'DYDD CATRIN OWEN', ymhlith amryw o gerddi eraill, yr oedd un gerdd gyda'r cyfarwyddyd i'w chanu ar y dôn 'Casllwchwr' uwch ei phen.

*Henffych, henffych Catrin Owen,  
Ti yw Derwen Fawr y coed;  
Pa sawl coeden wnest oroesi?*

*Onid ti yw'r un gant oed?  
A phum pennill arall yn dilyn. Ac o dan y gerdd, CYNAN.*

Mi 'roedd cof yr hen ŵr yn hollol ddibynadwy, felly.

\* \* \*

AILGODI'r sgwrs am y peth gydag ef wedyn ac yntau'n codi ysgyfarnog arall.

'Cynan' sgrifennodd y penillion fu yn Nhrysorfa'r Plant i ganlyn y darlun o genod bach y Bronallt, hefyd,' meddai.

Unwaith eto, 'roedd o'n berffaith gywir. Mewn rhifyn o *Drysorfa y Plant* yn 1910 yr ymddangosodd y penillion hynny, dau ohonynt, gydag enw Cynan wrthynt.

Ac wrth wrando ar atgofion bywiog yr hen ŵr amdano, fe'm prociwyd innau i ddwyn i gof y Cynan hwnnw gyda'i wyneb bochgoch a'i beniad o wallt clauerwyn. 'Doeddwn i ddim wedi arfer ei gysylltu â'i enw barddol; cyn fy amser i y defnyddiai hwnnw. Samuel Williams, Sarn Badrig, Brynaerau, un o seiri maen stad Glynllifon, ydoedd i mi.

Yr oedd yn ŵr hoffus, llawn direidi, ac yn flaenor blaenllaw yn y capel. Ystyrif ef yn bencampwr ar ysgrifennu traethodau ac am lunio pob math o gerddi ar gyfer gwahanol achlysuron. Ef neu Aled Ddu fyddai'r buddugwr gan amlaf ar y fath gynhyrchion mewn cyfarfodydd llenyddol ac eisteddfodau lleol.

Ond pan ddechreuodd y Prifardd Cynan o Bwllheli ymddangos yn seren llawer disgleiriach yn y ffurfafen na'r Cynan o Frynaerau, fe ddatgysylltodd Samuel Williams ei hun oddi wrth yr enw. Yr oedd dros ei ddeugain oed erbyn hynny. Ei enw ei hun a ddefnyddiai o dan ei waith mewn papurau newydd a chylchgronau wedi hynny.

Fe ymddangosodd un delyneg drawiadol iawn o'i waith yn *Y Traethodydd* yn 1944, telyneg i Ffynnon Fair, Aberdaron. Dywedir mai Yr Athro Ifor

Williams, fel yr adwaenid ef bryd hynny, a'i cymhellodd i gyhoeddi'r gerdd hon. Yr oedd Ifor Williams yn un o gyd-olygyddion *Y Traethodydd* ar y pryd. Pan fyddai'n aros yn ei dŷ haf ym Mhontllyfni, mynychai gapel Brynaerau ar y Sul, ac yn y fan honno eisteddai yn y sedd fawr bob amser. Gwelodd ef a Samuel Williams lawer ar ei gilydd yn y sêr fawr honno yng nghwrs y blynyddoedd.

\* \* \*

YN 1933 daeth profedigaeth fawr i ran Samuel Williams pan gollodd ei fab deuddeg ar hugain oed. Yr oedd y mab hwnnw, Owen John Williams, yn athro ym Mhorthmadog. Etifeddodd ddawn ei dad i farddoni, ac yr oedd yn dechrau dod i fri cenedlaethol fel bardd pan fu farw. Enillodd y gadair yn Eisteddfod Lewis, Lerpwl, yn 1932 gyda'i gerdd *Yr Hwyl Wen*.

Yr oedd Now Sarn, fel y gelwid ef yn annwyl ym Mrynaerau, yn arlunydd medrus yn ogystal â bardd. Cofir hyd heddiw am y darluniau hardd o'i waith a arferai grogi ar furiau cartref ei rieni.

Ysgrifennwyd am Owen John Williams yn *Beirdd y Bore* (1945) gan Dafydd Owen — a gweler ei hanes ef a hanes Eisteddfod Lewis' Lerpwl yn *Y Casglwr* hwn.

\* \* \*

BU FARW Samuel Williams yn 77 oed yn 1946. Fe'i claddwyd wrth ochr Owen John ym mynwent capel Brynaerau.

Prin iawn bellach yw'r rhai a gofia mai ef oedd y Cynan y gwelid ei enw wrth rigwm a telyneg ac emyn yng nghyhoeddiadau pedwar ugain mlynedd a mwy yn ôl. Yn wir, ychydig iawn o bobl sy'n sylweddoli, o bosibl, y bu yna fwy nag un Cynan yn y byd barddol.